
pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2023 Rhif 491



"...ac yn y prif gylch ar hyn o bryd mae arddangosfa arbennig o lusgo loriau o'r maes..."

*Rhifyn arbennig gydag atodiad lliw Sioe 2023*

# Y Scarlets yn Nhynygraig



Cyrhaeddodd dros 50 o ymwelwyr arbennig fferm Tynygraig ar 24 Awst – neb llai na thîm a hyfforddwyr Y Scarlets! Roedden nhw wedi dod i fyny yr holl ffordd o Lanelli a'r cylch yn unswydd i weld Dewi Jenkins yn rhoi arddangosfa gyda'i gŵn defaid. Buont hefyd yn holi cwestiynau lu ac roeddynt yn llawn diddordeb. Cafodd y tîm gyfle i efelychu Dewi fel rhan o'r ymweliad. Dyma yn sicr bluen arall yn het Dewi.

# Camp Ruth

Nid oedd yn syndod i'r sawl a fynychodd arddangosfa'r Lle Celf yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni o glywed bod Ruth Jên, Tal-y-bont, wedi ennill gwobr arbennig am ei gwaith dyfeisgar a difyr gyda'r teitl 'Mudo.'

Roedd yn amlwg fod pawb a'i welodd wedi dotio arno ac o ganlyniad wedi pleidleisio iddo yn eu niferodd yn y gystadleuaeth 'Barn y Bobl', sef gwobr Josef Herman. Cyflwynwyd y wobr i Ruth ar ddiwedd yr Eisteddfod gan y darlledwr Gary Owen.

Bu Papur Pawb yn holi Ruth am y gwaith sef cyfres o ugeiniau o ffigyrau bach mewn rhesi yn teithio mewn cwch neu ar draed i Dduw a wyr ble.

parhad tud 2



*Ruth Jên yn dangos ei gwaith i Gary Owen*

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 2


## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Fal a Gwyn, gyda Ceri'n dylunio.

Golygyddion rhifyn Hydref fydd Llio (lliorhys@yahoo.co.uk) a Cathryn (cat_yfoel@hotmail.com).

Y dyddiad cau yw 6 Hydref a bydd y papur ar werth ar 13 Hydref.

parhad o dudalen 1

# Camp Ruth

Esboniodd Ruth iddi ddechrau ar y gwaith rhai blynyddoedd yn ôl - heb unrhyw fwriad o gystadlu - pan oedd ar gwrs crochenwaith yn y Ganolfan Celfyddydau, Aberystwyth. Llwyddodd i asio mewn clai y printiau leino ('lino cuts') o adar a chreaduriaid dychmygol eraill y bu'n gweithio arnynt ers tro – gan greu ffigyrau amrywiol a diddorol.

Dros gyfnod hir creodd deuluoedd neu lwythau o greaduriaid a dim ond yn gynharach eleni cafodd y cyfle, drwy grant gan y Ganolfan Celfyddydau, i dreulio amser mewn stiwdio er mwyn gosod tua 600 o greaduriaid er mwyn creu math o stori a'u paratoi ar gyfer yr Eisteddfod.

Roedd symud y gwaith mewn 15 bocs o Dal-y-bont i faes yr Eisteddfod ym Moduan yn her ond cafwyd cymorth caredig gan sawl un lleol a ddarparodd bybl wrap iddi.

Yn ôl Ruth, mae'r gwaith yn esblygu o hyd ac mae'n gobeithio ei arddangos unwaith eto, efallai yn Aberystwyth. Felly mae'r stori heb ddod i ben ac efallai y bydd y teuluoedd bach hyn yn mudo eto cyn bo hir gan roi cyfle i rai na fuodd ym Moduan i'w gweld. Llongyfarchiadau i Ruth ... a'i chreaduriaid.


**Ffrindiau Cartref Tregerddan Te Prynhawn**
Cartref Tregerddan, 30 Medi am 2.30
Mynediad £3 – Croeso cynnes i bawb

**Noson Bingo**
Neuadd Goffa Tal-y-bont
29 Medi am 7.30

**Adweitheg**
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
**07375 422 608**

AR WERTH
**CARAFAN**
Coachman Amara 380/2.
Gwres canolog, popty, hob â 4 cylch (un trydan, 3 nwy) Cawod. Ychwanegiadau hael ac hefyd adlen 'porch' ac adlen 'canopy'. Symudwr ('mover'). Gwasanaeth blynyddol, a theiars Newydd sbon. Gorchudd Gaeaf. Cyflwr da.
Pris i'w drafod.
**Ymholer â 01970 828751**


*Salon Leri*
*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*
*10am-7pm*
*Llun-Gwener*
(01970) 832 674

**Garej Davmor**
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278


Dewch o hyd i ni ar @Garej Davmor


**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**MEDI**

**10** **Bethel** 10 Oedfa Deulu yng ngofal Gwyn a Falyri Jenkins
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**12** **Cwtsh Cynnes** 10–12 Ystafell Waelod Neuadd Goffa Tal-y-bont. Croeso cynnes i bawb
**Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Sefydlu'r Cylchgrawn *Cara*' (Meinir Wyn Edwards)
**Cyfarfod Pwyllgor y Gogledd, Sioe'r Cardis** 8 Neuadd Llanfarian

**16** **Dal Ati** 10.30–11.30 Cletwr

**17** **Bethel** 10 Uno â Seion, Huw Roderick
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Atgofion y Plwyf (Ysgol Llangynfelyn)** 2–4 Cletwr

**18** **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Llaeth Teulu Jenkins' (Sarah Jenkins)

**19** **Cwtsh Cynnes** 10–12 Ystafell Waelod Neuadd Goffa Tal-y-bont. Croeso cynnes i bawb

**20** **Bore Coffi i rai dros 60 oed** 10.30–12 Neuadd Llanfach, Taliesin

**21** **Atgofion y Plwyf** 2–4 Cletwr
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Hwyrol Weddi

**22** **Sesiwn Nos Wener** (Gai Toms) 8 Llew Gwyn

**24** **Bethel** 10 Geraint Evans
**Rehoboth** 5 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**26** **Cwtsh Cynnes** 10–12 Ystafell Waelod Neuadd Goffa Tal-y-bont. Croeso cynnes i bawb

**30** **Bore Coffi Macmillan** 10.30 Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach
**Te prynhawn** 2.30 Cartref Tregerddan

**HYDREF**

**1** **Bethel** 10 Uno â Bethel Aberystwyth, Peter Thomas
**Rehoboth** 2 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cwrdd Diolchgarwch
**Bethesda, Tynant** 2 Cwrdd Diolchgarwch, Richard Lewis

**8** **Bethel** 10 Oedfa Deulu yng ngofal David Jones
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Gŵyl Cynhaeaf
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Te Prynhawn Sioe'r Cardis** 2 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**9** **Pwyllgor Papur Pawb** 8 Neuadd Goffa

**10** **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Jones & Ginger' (Claire Jones)

**BOB WYTHNOS**
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 3

# Pobl a Phethe



## Priodas

Priodwyd Ruth, merch Eric a Liz Roberts, Maesyderi, Tal-y-bont gydag Alex ar y 10 Mehefin yn Rhydri, Caerffili. Dymunwn yn dda i'r pâr priod.



**Arholiad telyn**
Llongyfarchiadau i Swyn Jones, Tŷ Ni, 14 Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar lwyddo gydag anrhydedd yn ei harholiad telyn, Cam 1 dros yr haf.

**Ymddeoliad hapus**
Wedi gyrfa hir gyda banc yr HSBC, ymddeolodd Euryn Jones, Hen Felin, Tal-y-bont o'i swydd ym mis Gorffennaf. Mwynha dy oriau rhydd nawr Euryn i grwydro ar gefn dy feic!

**Penblwyddi arbennig**
Bu dathlu mawr yn Llys Alaw, Tal-y-bont yn ddiweddar wrth i Gwenallt Llwyd Ifan gyrraedd oedran arbennig ( na ddatgelwn! )! Penblwydd hapus hwyr i ti Gwenallt.

Cyfarchion penblwydd hefyd i Aled (Carregcadwgan), Dôl Pistyll, Tal-y-bont fydd yn cael penblwydd arbennig ddechrau Medi.

**Cydymdeimlo**
Yn 99 mlwydd oed yng nghartref gofal Allt y Mynydd, Llanybydder, bu farw Mrs Annie Jane Eurwen Jones, mam Arvid Parry Jones, Isallt, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn ag Arvid, Gwenllian, Robert ac Arwyn yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Margaret Richards, Tygwyn, Bont-goch ar farwolaeth ei gŵr Richard Hamp (Rich Tygwyn).

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Sue Northam, Drws y Coed, a'i theulu, ar farwolaeth ei gŵr Clive Northam.

Bu colled fawr ar aelwyd Pengwern, Tal-y-bont gyda marwolaeth Evan Jenkins. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Betty, ei wraig, a'r plant Delyth, Meinir, Aled a'r teulu. Bydd teyrnged i Evan yn dilyn yn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

**Ennill Medal Ryddiaith**
Llongyfarchiadau i Meleri Wyn James ar ennill Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionnydd gyda'i chyfrol yn dwyn y teitl 'Hallt'. Mae Meleri yn Olygydd Cymraeg yng ngwasg Y Lolfa.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Catrin Huws, Henllan, Tal-y-bont ar ennill gradd MA ym Mhrifysgol Bangor.

**Priodas Aur**
Ar 8 Medi bydd Reg ac Eurlys Jones, Eurfan, Tal-y-bont yn dathlu eu priodas aur. Llongyfarchiadau diffuant i chi eich dau.

Pâr priod lleol arall sydd newydd ddathlu eu priodas aur yw Glyn a Jill Saunders-Jones, Y Fagwyr. Llongyfarchwn chithau yn yr un modd.

Cafodd Mick a Jenny Fothergill, Minafon, Tal-y-bont wythnos o ddathlu yng nghwmni'r plant a'r dair wyres fach wrth iddynt hwythau ddathlu eu priodas aur yn ystod yr haf. Gobeithio y cawsoch amser wrth eich bodd.

**Sioe Flodau'r Amwythig**
Llongyfarchiadau i Christine Gilbert, Tre'r ddôl ar ennill tair gwobr gyntaf yn Sioe Flodau Yr Amwythig - tipyn o gamp! Christine oedd yn gyfrifol hefyd am y trefniannau blodau i gyd fynd â'r arddangosfa arbennig yn Eglwys Mihangel, Eglwys-fach.

**Pob lwc**
Llongyfarchiadau a phob lwc i Serian Evans, Bontgoch ar ei swydd newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl 7 mlynedd yn gweithio i Techion UK mae Serian wedi derbyn swydd Technegydd Gwyddonol Anifeiliaid, lle bydd yn ymgymryd â gradd meistr mewn parasitoleg gan edrych yn bennaf ar fluke mewn anifeiliaid.

Dymuniadau gorau hefyd i Sion Pennant, Penygro, Bontgoch ar ei swydd newydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel Rheolwr Systemau a TG.

**Brysiwch i wella**
Gwellhad buan i John Hughes, Pencwm, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Gobeitho eich bod chithau, Illtyd Griffiths, Carnedd y Gors, Eglwys-fach yn gwella wedi cyfnod yn Ysbyty Bronglais.

**Yn yr Ysbyty**
Estynnwn ein dymuniadau gorau i Megan Brickley, Tan-y-bryn, Taliesin, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Bethan Gwyndaf Davies, Dolclettwr, ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

**Clwb Cant Neuadd Llanfach**
Enillwyr mis Awst:
1. Rhif 56 Karen Evans
2. Rhif 82 Barry Jones
3. Rhif 46 Donna James

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 4



*Diwrnod trwco llyfrau*






*Diwrnod mabolgampau llwyddiannus*



*Mostyn ac Elen yn canolbwyntio!*



*Unawd trwmped gan Tomos.*
*Arddangosfa gan feicwyr Fusion Extreme*




*Derbyn gwobr yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe*



*Arddangosfa gan feiciau Fusion Extreme*

# Ysgol Tal-y-bont

## Gwobr Arbennig

Cyn diwedd Tymor yr Haf fe gafodd yr ysgol neges ei bod wedi ennill gwobr arbennig o £200 yng nghystadleuaeth blynyddol Menter Ysgolion y Dreftadaeth Cymreig. Nod y fenter yw annog pobl ifanc i ymddiddori yn eu treftadaeth Gymreig ac i rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cymunedau â'r byd yn ehangach. Sail ein gwaith ni oedd yr astudiaeth o efaciwis i ardal Tal-y-bont yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac yn arbennig gyfraniad Gwen Billingham (Alltgoch), David Jones, Bwlchyddwyallt ac wrth Will Crye. Diolch o galon i chi gyda am ein helpu, cafwyd diwrnod hyfryd iawn yn Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe i dderbyn y wobr.

## Gweithgareddau Diwedd Blwyddyn Gwibdeithiau

Roedd hi'n hyfryd gallu mynd ar wibdaith yn ystod wythnos olaf y tymor fel gwobr i'r plant am flwyddyn arbennig o waith. Eleni aeth y plant hynaf i Fferm Folly a'r plant ieuengaf i fferm Ffantasi yn Llanrhystud. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am y nawdd hael i'r wibdaith – pawb wedi mwynhau.

## Ysgol Iach

Yn ystod wythnosau diwethaf Tymor yr Haf cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol gyda chymorth Dominic Jenkins i ddechrau'r rasys. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm am eu hymdrechion arbennig yn ystod y prynhawn a da iawn Leri am fod yn enillwyr teilwng eleni eto. Diolch yn fawr i'r capteiniaid am ein helpu gyda'r paratoadau ac i Anthony Jarrett am y casgliad o ffotograffau hyfryd. Llongyfarchiadau mawr i'r holl enillwyr.

Yn dilyn hynny cafwyd diwrnod gwych o gystadlu yn erbyn ysgolion cylch Aberystwyth. ar Gaeau Ysgol Penweddig. Da iawn i'r tîm am ymdrech 100%, doedd dim rhyfedd fod pawb wedi blino'n lân erbyn y diwedd.

## Ysgol Greadigol

Cynhaliwyd prynhawn arbennig yn yr ysgol er mwyn rhoi llwyfan i holl ddisgyblion yr ysgol gael cyfle i berfformio a dangos eu doniau i weddill yr ysgol. Cafwyd nifer o eitemau graenus a rhai gwahanol iawn gan y plant. Yn ogystal â chanu unawdau a deuawdau, cafwyd sawl eitem offerynnol hefyd gan gynnwys, piano, cornet, a thelyn. Ond yn fwy anghyffredin cafwyd gwers pilates, perfformiadau'n cyfuno dawnsio a gymnasteg ac yn fwy rhyfeddol fyth, chwibanu a thriciau hyd a lledrith! Diolch o galon i chi gyda am roi cyngerdd gwerth chweil i ni.

A chafwyd cyngerdd gwych arall yng Nghanolfan y Celfyddydau cyn diwedd y tymor hefyd pan aeth plant o Ysgol Tal-y-bont i ymuno gyda disgyblion eraill o ysgolion Ceredigion i fod y rhan o'r Proms blynyddol. Roedd dros 100 o blant yn y gerddorfa a tua 350 yn y côr! Diolch i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am drefnu'r profiad arbennig eto eleni.

## Ysgol y Gymuned

Cynhaliwyd ein barbeciw blynyddol, gyda phlant Blwyddyn 6 yn serennu wrth gynnal cyngerdd hyfryd yn neuadd yr ysgol eleni eto. Diolch yn fawr i chi am eich cyfraniad i'r ysgol dros y blynyddoedd a phob hwyl i chi yn yr ysgolion uwchradd. Cofiwch alw draw i'n gweld yn fuan.

Diolch i bawb am gefnogi ac yn enwedig i aelodau o'r Gymdeithas Rieni am yr holl waith paratoi a Mrs Jones y gegin (a Mrs James wrth gwrs!) ac i'r staff i gyd am bob cymorth ar y noson hefyd.

## Diwrnod Trwco Llyfrau

Cafwyd syniad ardderchog i godi diddordeb mewn darllen llyfrau'n ddiweddar wrth i blant ddod â hen lyfrau i'r ysgol i'w cyfnewid. Diolch o galon i bawb am gefnogi, roedd yn weithgaredd boblogaidd iawn.

## Gwobr arall!

Yn dilyn llwyddiant yr ysgol yn cymryd rhan yn ymgyrch flynyddol Sustrans i gael teuluoedd i beidio â defnyddio'u ceir i ddod i'r ysgol, cafwyd gwobr arbennig sef ymweliad gan feicwyr Fusion Extreme. Rhyfeddwyd ni gyd gyda'u triciau a'u campau – roedd hi'n bleser gweld wynebau'r plant. Da iawn chi Mrs Rhys am fod mor ddewr yn un o'r triciau!

## Staffio

Ar ddiwedd Tymor yr Haf cawsom gyfle i ddiolch i dair aelod o staff am eu cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Miss Watkin ar fin dechrau gwaith yn y Cylch Meithrin, Miss Megan am ddechrau cwrs Ymarfer Dysgu ym Mhrifysgol Bangor a Miss Roberts yn symud i ddysgu yn Ysgol Bro Ddyfi. Gobeithio eich bod wedi mwynhau yma gyda ni yn Ysgol Tal-y-bont a phob hwyl i chi yn y dyfodol. Bydd hi'n rhyfedd iawn yma ym mis Medi hebddoch chi, ond cofiwch bod croeso i chi alw nol i'n gweld yn fuan.



*Yr ysgol gyfan yn cael hoe ar ben Allt y Crib*

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 6

# Pobl a Phethe



## Te Prynhawn


Roedd yn hyfryd i weld Neuadd Llanfach, Taliesin, yn llawn ar gyfer y te prynhawn i blwyfolion dros 60 oed a gynhaliwyd ar brynhawn Sadwrn, 17 Mehefin. Pwyllgor Henoed Llangynfelyn oedd yn gyfrifol am y trefniadau, a chafwyd prynhawn dymunol wrth i bawb fwynhau'r bwyd hyfryd a'r cymdeithasu.

---

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

## Llŷn ac Eifionydd

Bu sawl un o'r ardal yn rhan amlwg o'r Eisteddfod eleni. Gwelwyd darn o waith celf gan Robert Davies, Taliesin yn cael ei arddangos yn Y Lle Celf. Yn y Babell Lên bu Robat Gruffydd, Tal-y-bont yn cymryd rhan mewn rhaglen deyrnged i'r awdur Penri Jones a Bleddyn Huws, Tal-y-bont yn trafod y cefndryd R Williams Parry, T H Parry-Williams, Thomas Parry a Gruffudd Parry. Roedd Gwenallt Ifan yn aelod o dîm Ceredigion a ddaeth yn ail yn Ymryson y Beirdd. Roedd Huw Lewis Tre'r ddôl a Barry Jones, Tal-y-bont yn aelodau o Gôr Meibion Dyfi a enillodd y wobr gyntaf i gorau meibion mewn cystadleuaeth boblogaidd. Ar y maes roedd Y Lolfa yn bresennol yn ôl eu harfer ynghyd â Ruth Jên a chwmni dillad Anwen Tynygraig, Ani Bendod ac yn y Lle Crefft roedd stondin crochenwaith Gwladys, Bontgoch, 'Serennu', i'w weld mewn safle amlwg.



# Teyrnged

## John Morgan
Moelgoch, Tal-y-bont

Bu farw John Morgan yn ddisymwth ddechrau mis Awst ac yntau'n ddyn heini 87oed. Chwe mis ynghynt roedd wedi cael diagnosis canser y coluddyn, wedi wynebu hwnnw'n ymarferol a dewr, derbyn y llawdriniaeth, dilyn y cyfarwyddiadau i wella fel dyn penderfynol ei natur.

Fe fuon ni'n gymdogion i John a Janet am 35 o flynyddoedd. Pan ddaethon nhw i fyw i Dal-y-bont fe aeth Rachel y ferch ifanca' i Ysgol Penglais ac roedd Sêri ei chwaer hŷn ym Mhrifysgol Llambed.

Daeth John i weithio fel pennaeth y Weinyddiaeth Goedwigaeth yn Aberystwyth. Roedd wedi dringo'r ysgol o fewn y Comisiwn trwy amrywiol swyddi o fewn ei hadrannau. Roedd hyn yn golygu lot o symud i'r teulu, cyfnodau o fyw yn Nolgellau, Betws y Coed, Surrey, Caerdydd ac Efrog. Roedd John wrth ei fodd cael dychwelyd i weithio i Gymru yn 1987. Erbyn ei ymddeoliad, a'r Comisiwn wedi ei ad-drefnu, roedd yn Gyfarwyddwr dros Gymru.

Un o fechgyn Creunant, oedd John, wedi ei fagu o fewn teulu o Gymry Cymraeg pybyr ac addysg a'r capel yn bwysig iddynt. Mynd i Brifysgol Bangor o Ysgol Ramadeg Castell Nedd wnaeth John i astudio coedwigaeth ac addysg. Tra yno cyfarfu â chanlyn Janet o Clitheroe a ddaeth yn wraig ffyddlon a hwyliog iddo.

Daeth hoffter John o'r awyr iach o'i arfer o fynd i fferm y teulu, Ynysfadog. Nid yn unig bod gwaith bob dydd yn eithriadol o bwysig i John, roedd treulio amser gyda Janet a'r merched yn bwysig, carafanio, dysgu hwylio a sicrhau bod y plant yn dod i werthfawrogi cefn gwlad.

Wedi ymddeol bu John yn flaengar gyda'r Ramblers, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Cymdeithas Mynyddoedd y Cambrian a Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion. Roedd Clwb Golff Borth yn agos at ei galon ac yn 1999 bu'n gapten.

Dyn trefnus, difrifol a chywir oedd John ymysg pobl, dim un i wastraffu geiriau ond dweud ei farn yn blaen. Pan siaradai Gymraeg roedd honno'n goeth a chywir a goslef Cwm Tawe i'w glywed. Dwi'n cofio iddo fynd a chriw o ddysgwyr Cymraeg allan am dro i ardal Pantperthog ac adrodd i ni rai o gerddi natur Eifion Wyn oedd wedi ei dysgu pan yn blentyn.

Daeth darfod John yn dawel a chydag urddas yn ei gartref gan gydnabod ei oed a'i fywyd hir.

*Medi James*


Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 7

# Arddangosfa yn Eglwys Fach



Roedd Alison Swanson yn awyddus iawn i godi arian tuag at Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach ac elusennau lleol eraill, ac ym mis Mehefin daeth y syniad iddi – trefnu arddangosfa o ffrogiau priodas a bedydd yn yr eglwys. Aeth ati'n syth i hysbysebu ac i holi hwn a'r llall ac o fewn dim cafodd ymateb ardderchog. Daeth y ffrogiau o bell ac agos ac roedd gan bob un ohonynt rhyw gysylltiad â'r eglwys neu'r plwyf. Gyda chymorth Delyth Griffiths a nifer o aelodau'r gymuned, trefnwyd a gosodwyd yr arddangosfa yn ei lle. Roedd y ffrog briodas hynaf yn dyddio o 20au'r ganrif ddiwethaf a'r ffrog fedydd o 1897. I gyd fynd â'r dillad paratowyd nodiadau yn cynnwys hanes, gwybodaeth a storïau amdanynt a llun. Addurnwyd yr eglwys gan Christine Gilbert. Agorwyd yr arddangosfa ar 24 Awst a bu ar agor am wythnos. Paratowyd cwpaned a chacen hefyd i'r ymwelwyr ac ar y Sul cyntaf yn ogystal, cafwyd gwasanaeth arbennig yn yr eglwys yn seiliedig ar Wasanaeth Priodas.

Rhennir yr arian a gyfrannwyd gan y llu ymwelwyr a ddaeth i weld yr arddangosfa rhwng Eglwys Sant Mihangel, Hahav a Chanolfan Ferlota Rheidol i blant Anabl.



# Ennill yn y Sioe Fawr



Daeth llwyddiant i frawd a chwaer o Faesyderi, Tal-y-bont yn Sioe Frenhinol Llanelwedd eleni. Daeth Ela Williams, 8 oed yn bencampwr y tywyswyr ifanc yn y dosbarth iau gyda'r ddafad Torddu, ar ei thro chyntaf yn cystadlu a daeth ei brawd Hari, 11 oed yn is-bencampwr yn y dosbarth oedran canolig gyda hwrdd Torwen. Roedd dros 30 o blant ym mhob dosbarth. Mae'r ddau hefyd wedi dod i'r brig mewn sawl sioe dros yr haf ar draws Ceredigion ac yn Sir Fôn. Da iawn chi.



Llongyfarchiadau i Dewi Jenkins, Tynygraig ar ei lwyddiant unwaith eto yn y Sioe Fawr eleni. Enillodd y bencampwriaeth ar gyfer cŵn defaid gyda'i gi Jock. Bydd Dewi, fel aelod o dîm Cymru, yn teithio gyda'i gŵn Jock a Bob i'r Iwerddon rhwng 8 – 10 Medi i gystadlu yn Nhreialon Cŵn Defaid Rhyngwladol yno. Pob dymuniad da iddo yno.

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 8

# Y Siop **Bontgoch**

## Dyma ail ran ysgrif arobryn Carys Briddon ar Y Siop, Bont-goch.

Cyhoeddwyd y rhan gyntaf yn rhifyn Mehefin.

Carys Briddon Gwerthid pob math o bethau yn y siop ar gyfer gofynion pobl y pentref a'r ffermydd cyfagos – hon oedd archfarchnad y pentref yn y dyddiau a fu. Nid oedd pobl yn medru teithio'n bell iawn cyn dyfodiad y bws i'r pentref tua chanol y ganrif ddiwethaf, a hwnnw'n dod ar ddydd Llun yn unig i gludo pobl yn ôl ac ymlaen i Aberystwyth, felly roedd cael siop fel hon yn y pentref yn gaffaeliad mawr. Siop hen ffasiwn ydoedd, a'r nwyddau i gyd yn cael eu harddangos ar y silffoedd oddeutu'r ystafell, a phob peth yn ei le yn daclus. Pan ymwelais ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan rai blynyddoedd yn ôl a chamu mewn i Siop Gwalia yno, cefais fy atgoffa'n syth o siop fy Nhad-cu gan ei bod yn union yr un fath, gyda'r silffoedd brown o amgylch yr ystafell yn llawn o bob math o nwyddau. Ni ddaeth trydan i'r pentref hyd 1957, ac felly nid oedd unrhyw declyn modern, fel rhewgell, yn y siop. Roedd yn anodd iawn cadw menyn yn galed yn ystod yr haf, ond roedd yna garreg oer, drwchus mewn un gornel dywyll, a dyna lle cedwid y menyn mewn bocs trwchus ar ben y garreg oer. Yn ôl y llyfr cownt sydd gennyf dyma restr o rai o'r nwyddau a werthid yn y siop ar ddechrau'r 1930au, ynghyd a'u pris: Siwgr 6c; Te 6c; Menyn 10c; Wyau 6½c; Torth 4c; Caws 7½c; Salmon 1/-; Bisgedi 4c; Afalau 5c; Tomatoes 11c; Marmalade ½c; Blawd 21/-; Burum 2c; Coffi 10½c; ½ pwys Brawn 6c; Winwns 2c; Custard 3c; Reis 8c; Tapioca 5c; Herrings 6c; Siwgwr brown 3c; Moist sugar 2½c; Bacon 6c; Llaeth 8½c; Oat Meal 5c; Chocolate 2c; Mustard 2c; Egg powder 1½c; 2lbs Cake 1/-; Bar Salt 1/1; Jelly 3½c; Cream Crackers 3½c; Bovril 1/2½c; Sack of Bran 8/-; 2lb Chick Food 4c; 28 pwys Indian Meal £1.10½c; Crib 1/-; Writing pad 6c; Nibs 1c; Blotting paper 2c; Tape 3c; Wool Mending 3c; Rinso 3½c; Lliw glas (Blue) 1c; Sebon 6½c; Brasso 6c; Boot Polish 6½c; Laces 1½c; 2 Box Paint 1/6; Canhwyllau 2/3c; Emery cloth 2c; M. Wool 1c; Embrocation 1/6; Salts ½c; Health Salt 9c; Baco 9½c; Cigarettes 6c; Matches 1c; Oil 6c; 2 galwyn petrol 2/9; Battery 4½c; Welsh Gazette 2c; Cambrian News 2c.

Fe welir nad bwyd yn unig a werthid yn y Siop – roedd yno bob peth a oedd ei angen ar y gymdeithas yr adeg honno: bwyd, yn cynnwys cig moch a brynai fy Nhad-cu fesul hanner mochyn, felly roedd modd torri'r cig yn sleisen dew neu denau i blesio'r cwsmer, neu yn ddarn o gig i'w ferwi; brawn (y brawn wedi ei wneud gan Mam-gu); prynwyd y caws fesul cosyn, a rhaid oedd ei dorri yn ddarnau i blesio'r cwsmer gyda'r weiren gaws (o wneuthuriad fy Nhad-cu); blawd a burum i bobi bara; glo, paraffin, petrol, matsys; bwyd ieir a chywion; papur ysgrifennu, amlenni, inc, nibs (ac yn ddiweddarach, beiros); cardiau pen-blwydd a chardiau Nadolig; cardiau post; hadau blodau a hadau llysiau i'r ardd; labeli parseli; glud; drawing pins; cribau, pinnau gwallt, net gwallt, siampŵ; papurau newydd – y News Chronicle oedd y papur dyddiol, a'r Welsh Gazette a'r Cambrian News bob wythnos; batri a bwlb ar gyfer flashlamp; wick a gwydr ar gyfer lampau paraffin; carai esgid, polish esgid; botymau, nodwyddau, edau; Elastoplast; meddyginiaethau fel Aspros, Beechams Powders, Health Salts, Senna Pods, Liquid Paraffin, Victory V lozenges ar gyfer dolur gwddw, ac yn y blaen. Roedd rhes o boteli melysion o bob math ar un silff, a'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn prynu chwarter pwys o felysion ar y tro, a rhaid oedd pwyso'r rheiny ar y glorian efydd a'u trosglwyddo i'r cwsmer mewn bag papur gwyn, siâp côn.

Bob ochr i'r cownter mawr safai dwy glorian: defnyddid un i bwyso pob peth – pethau mor amrywiol â chwrens a syltanas, caws, cig moch a winiwns – a'r llall, yr un efydd a oedd bob amser yn sgleinio, i bwyso melysion yn unig. Defnyddid y pwysau efydd canlynol ar y ddwy glorian: 2 bwys, 1 pwys, ½ pwys, ¼ pwys, 2 owns, 1 owns a ½ owns. Roedd bobl o'r Adran Pwysau a Mesur (Weights and Measures) yn Aberystwyth yn cynnal diwrnod yn y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont unwaith y flwyddyn, ac roedd yn ddyletswydd ar y siopwyr lleol i fynd â'r pwysau yno i wneud yn siŵr eu bod y pwysau cywir. Stampiwyd y flwyddyn arnynt i brofi iddynt gael eu harchwilio. Y dyddiad cyntaf sydd i'w weld ar y pwysau a oedd yn siop Bont-goch yw 1896, a'r dyddiad olaf yw 1963.

Yn y dyddiau cynnar, byddai fy Nhad-cu yn cludo nwyddau (i'r mwynwyr yng ngwaith mwyn Bwlch-glas, ac eraill) gyda chaseg a chert, a'r gaseg yn pori yn y cae bach gyferbyn â'r siop lle'r oedd yr hen siop yn arfer bod. Ar un adeg defnyddid hanner y tŷ gwair fel stabl i'r gaseg, ac roedd yno fegin a thân ac eingion fel y gallai bedoli'r gaseg ei hunan. Byddai'n pedoli ceffylau i bobl eraill hefyd pe byddai angen. Yn ystod y 1920au byddai'n teithio gyda'r gaseg a chert i nôl nwyddau o'r orsaf drên yn Bow Street i bobl yr ardal ac i Ysgol Gynradd Elerch yn y pentref. Roedd ganddo gytundeb gyda Chyngor Sir Ceredigion i gyflenwi nwyddau o'r siop ar gyfer yr ysgol hefyd. Adeg yr Ail Ryfel Byd roedd dogni ar fwyd, felly roedd yn rhaid iddo gadw record o'r wyau, menyn, caws, cig moch a siwgr a ganiateid i'r pentrefwyr.

Wrth adeiladu'r siop, adeiladwyd ffwrn fawr wrth wal y cefn a oedd yn galluogi Mam-gu i bobi digon o fara ar gyfer y gymuned. Roedd lle tân ar lawr oddi tani i gynhesu'r ffwrn a oedd o siâp crwn, a phan oedd y brics tu mewn i'r ffwrn wedi troi eu lliw yn wyn, roedd hynny'n dynodi bod digon o wres yn y ffwrn i bobi'r bara. Rwyn cofio gweld y toes mewn padell fawr a gorchudd drosto yn aros iddo godi cyn iddi dylino'r toes i wneud y bara. Erbyn hynny, adeg fy mhlentyndod i, dim ond pobi ambell dorth i'r teulu a wnâi hi.

Galwai trafaelwyr masnachol yn y siop yn fisol, a dyma'r rhai a gofiaf i yn y 1950au-1960au: David Jones, y Drenewydd, a ddeuai â'r nwyddau i'r siop gyda'r 'lori gwds'; Lyons Cakes gyda'r cacennau; Thomas Oils yn dod â'r paraffin; Evans y Pop yn dod â'r pop o'r ffatri yn Llanbadarn; Owens y Bara, Teviotales, Aberystwyth, yn dod â'r bara bob dydd Mawrth a dydd Gwener, a byddai fan yn dod ag wyau bob dydd Iau. Deuai rhai o'r ffermwyr a'r tyddynwyr lleol ag wyau i'r siop er mwyn eu gwerthu i'r fan wyau, a hynny'n fodd iddynt ennill ychydig o arian ychwanegol am eu cynnyrch.

Ymddeolodd fy Nhad-cu o werthu glo yn y siop ym mis Awst 1955. Byddai'n arfer cael llwyth o lo o'r orsaf yn Bow Street, ac wedyn roedd yn rhaid cychwyn ar y gwaith llafurus o'i bwyso fesul cant neu hanner cant ac yna'i gludo i'r sawl oedd ei angen.

Roedd llawer o bobl y pentref a'r ffermydd cyfagos yn dod i'r siop yn rheolaidd i brynu nwyddau ond nid oedd ganddynt bob amser arian parod i dalu amdanynt, ac yn hytrach gofynnent i'r siopwr i gadw cownt o'r nwyddau a hwythau'n talu amdanynt yn nes ymlaen, pan gallent. Mae enghraifft yn y llyfr cownt yn 1953 fod gwraig un o'r ffermydd yn dod i'r siop bob yn ail ddydd i nôl neges neu ddwy – a chyfle i gael sgwrs! – ond heb dalu amdanynt. Roedd arni ddyled o £64.12.8½ ar 19 Medi – a'r ddyled yn cynyddu'n ddyddiol o hynny ymlaen hyd ddiwedd y flwyddyn – ac roedd honno'n swm fawr yn 1953, felly, roedd y siopwr ar ei golled yn ystod y misoedd hynny. Ond fe gafodd y ddyled ei thalu'n llawn: talwyd £80.2.1. mewn arian parod ar 1 Rhagfyr 1953, mwy na thebyg ar ôl i'r ffermwr werthu rhai o anifeiliaid y fferm. Rhaid nodi mai dim ond un esiampl oedd hyn, gan fod tudalennau'r llyfr cownt yn llawn enghreifftiau o'r fath.

Roedd y pennill canlynol i'w weld ar wal y siop, yn ddigon clir i bawb ei weld:

As man to man is so unjust,
It's hard to know which one to trust,
I've trusted many to my sorrow,
So pay me today and we'll be friends tomorrow.

Bu fy Nhad-cu a theulu'r siop yn weithgar iawn yn y gymuned ar hyd y blynyddoedd, ac yn hoff o gadw mewn cysylltiad gyda theulu a ffrindiau drwy lythyru'n gyson. Mae gennyf enghreifftiau o lythyrau a dderbyniwyd ganddo oddi wrth rhai o fechgyn y pentref a fu'n gwasanaethu yn yr Ail Ryfel Byd mewn ateb i'r llythyrau a ysgrifennodd ef atynt hwy. Roedd y teulu hefyd yn cystadlu ac yn ennill yn gyson yn y cyfarfodydd cystadleuol niferus a gynhelid yn yr ardal yn y dyddiau a fu. Byddai gwragedd un o'r ffermydd yn trefnu parti i blant yr ysgol adeg y Nadolig, a derbynient felysion o'r siop fel anrheg gan fy Nhad-cu. Ar ôl un parti yn 1936, dywedir mewn adroddiad 'Santa Claus was humourously portrayed by James Pearce Evans'.

Gan fod fy Nhad-cu wedi cyrraedd oed yr addewid erbyn i mi gael fy ngeni, ni welais ef yn gweithio rhyw lawer tu ôl i'r cownter yn y siop yn ystod fy mhlentyndod gan mai Mam a gymerodd ei le i ofalu am y siop. Cymeriad hapus yn llawn hiwmor ydoedd, a gallaf ei ddychmygu yn ei elfen y tu ôl i'r cownter pan oedd yn iau gan ei fod yn mwynhau sgwrsio â hwn a'r llall. Bu ef farw ym mis Chwefror 1960 yn 84 mlwydd oed, ac erbyn hynny fy Mam oedd wedi cymryd drosodd dyletswyddau'r siop. Yn anffodus, bu hithau farw ym mis Mehefin 1963, a gan nad oedd aelod arall o'r teulu i gario ymlaen gyda'r dyletswyddau yn y siop fe'i caewyd y mis Medi canlynol. Erbyn hynny, roedd diboblogi wedi digwydd yn y pentref a phan ddeuai tŷ yn wag, yn ddiau fe'i prynwyd gan deulu o Loegr i'w ddefnyddio fel tŷ haf. Hefyd, roedd nifer o bobl y pentref a'r ffermwyr cyfagos wedi prynu car erbyn hynny ac yn medru teithio i Aberystwyth i brynu eu nwyddau – nid oedd siop fach mewn pentref gwledig yn medru cystadlu gyda'r prisiau a geid yno. Felly, ar ôl gwasanaethu'r pentref am bron i drigain mlynedd, daeth cyfnod y teulu a'r siop ym mhentref Bont-goch i ben.

Mae cyfeiriad at y siop mewn pennill o'r enw 'Y Cwm' a luniwyd gan fardd lleol, y diweddar J. R. Jones, yn ei gyfrol Cerddi Cwm Eleri:

O sgwâr y ddau Lew hyd ben ffordd yr hen siop sinc yn Elerch
Mae pedair milltir o wythïen dar yn fywyd drwy'r cwm …

*Carys Briddon*

# Sioe'r Cardis 2024

Do, fe ddaeth hi 'n amser unwaith eto i Geredigion noddi'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Y tro diwethaf i'r sir wneud hynny oedd yn 2010, yr un flwyddyn ag Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron.

Ers blwyddyn bellach, mae trigolion Ceredigion wedi mynd ati i godi arian tuag at noddi'r Sioe Fawr yn Llanelwedd yng Ngorffennaf 2024.

Fe lansiwyd yr apêl – Sioe'r Cardis- ym Medi 2022 gyda cinio mawreddog ym Mhafiliwn Pontrhdfendigaid. Yn ystod y prynhawn cafodd pawb gyfle i wrando ar adloniant lleol ac i gychwyn y daith i godi arian cafwyd ocsiwn lwyddiannus.

Yn ôl yr arfer, er mwyn hwyluso'r codi arian, mae'r Sir wedi cael ei rhannu yn dair ardal – a phob un gyda pwyllgor a swyddogion ei hunain sydd yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau i godi arian tuag at yr apel Sirol. Rhennir y Sir yn ranbarth y de, canol a gogledd – tair ardal eang.

Criw'r Cardis – pwyllgor merched y Sir – sydd wedi bod yn gyfrifol am ddewis a dethol y nwyddau sydd wedi cael eu creu er mwyn hyrwyddo Sioe 'r Cardis. Yn ystod yr haf, bu aelodau y gwahanol bwyllgorau wrthi'n brysur yn mynd o amgylch sioeau lleol y Sir.

Bu'r stondin, er gwaetha'r tywydd, yn gwerthu y gwahanol nwyddau sydd ar gael e.e hwdis, crysau T, crysau polo a hetiau. Erbyn y Ffair Aeaf gobeithir cael hwdis gwahanol i'w gwerthu.

Yma yn y gogledd, fe gynhelir pwyllgor yn fisol yn neuadd bentref Llanfarian – croeso i unrhywun ymuno. Bydd y pwyllgor wedyn yn cael cyfle i drefnu a thrafod digwyddiadau lleol. Cadeirydd pwyllgor y gogledd yw Wyn James, Fronfraith. Hyd yn hyn yma yn y gogledd rydym wedi cynnal sawl noson Bingo, taith tractorau, bêc off a helfa drysor mewn gwahanol leoliadau yng nogledd y Sir.

Llywydd y Sir am y flwyddyn 2024 yw Denley Jenkins, Brongest.

Yn yr Hydref cafodd Esyllt Ellis Griffiths (wyres Barbara Jenkins, Hafod Ifan) ei hethol fel Llysgenhades y Sir. Rowland Davies, Dolclettwr yw Cadeirydd Ceredigion gyfan. Pob dymuniad da iddyn nhw.

Dyma rai o ddigwyddiadau'r gogledd yn ystod y misoedd nesaf.

Dewch yn llu
Dydd Sul, Hydref 8fed Te Prynhawn
Neuadd Talybont am 2pm
Tocyn £15 i gynnwys raffl

Nos Wener Hydref 27ain Bingo Calan Gaeaf
Neuadd Capel Bangor

Nos Wener Tachwedd 17eg Cyngerdd Hwyliog
Neuadd Fawr, Aberystwyth am 7 pm gyda
Cor Meibion Machynlleth, Cor Adran yr Urdd,
Aelodau CFFI Ceredigion
P'nawn Sul, Rhagfyr 10fed Cymanfa Ganu
Capel Carmel, Llanilar gyda
Delyth Hopcyn Evans

Rhagfyr 27ain Taith Tractorau
Rhagor o fanylion i ddilyn

Dewch i gefnogi.

*Rowland Davies*

# Sioe Tal-y-Bont

Er i'r glaw amharu ar ambell i weithgaredd yn y bore, a throi y maes a'r meysydd parcio yn anarferol o fwdlyd, cafwyd cystadlu brwd yn y Sioe unwaith eto eleni. Cyflwynwyd y cwpanau a'r tlysau gan y Llywyddion, Glyn a Jill Saunders-Jones.

Gyda'r haul yn tywynnu erbyn hynny, arhosodd nifer fawr i wylio'r rasys cŵn a'r ras hwyiaid ddiwedd y prynhawn, a chafwyd noson gyffrous ar ffald Tanrallt yn y Cneifio Cyflym.

Llongyfarchiadau a diolch i bawb a fu'n brysur gyda threfniadau amrywiol y diwrnod.

## Y Canlyniadau

**Y Babell**
**GWREIDDIAU A GRONYNNAU**
**Yr ardd flodau orau**
1. Nicola Myring-Thomas, Tal-y-bont
**Yr ardd lysiau orau**
1. Claire Fowler, Tal-y-bont
2. Helen Hicks, Llangynfelyn
3. Jo Chalmers, Pentrebach
**Cae wedi ei ail-hadu yn 2022 neu 2023**
1. Teulu Evans, Tynant
2. Hywel Williams, Cynnull Mawr, Tal-y-bont
3. Hywel Williams, Cynnull Mawr
**Cae o swej, rep neud faip**
1. Huw Davies, Bont-goch
2. Teulu Evans, Tynant
3. Huw Davies
**Ffens o 100m neu fwy wedi ei chodi yn y flwyddyn diwethaf**
1. Huw Davies
**Yr ardd orau ar gyfer bywyd gwyllt**
1. Nicola Myring-Thomas
**Yr ysgallyn hiraf**
1. Mostyn Lloyd-Williams, Bont-goch
**Belen o Wair Dôl**
1. Teulu Tanrallt
3. Teulu Tanrallt
**Tywarchen Orau o Borfa Sefydlog**
1. Llinos Jones, Capel Bangor
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Huw Davies

**CYNNYRCH GARDD**
3 Winwnsyn (Hadau)
2. David Jones, Tal-y-bont
**3 Cenhinen**
1. Anthony Holt, Tal-y-bont
**4 Taten Wen**
2. Sarah Lloyd-Williams, Bont-goch
3. Teulu Alltgoch
**4 Taten Lliw**
3. Elfed Jones, Berthlwyd
**4 Coeden Ffa Dringo**
1. Elfed Jones
2. Anthony Holt
3. Barry Thomas, Eglwysfach
**4 Coden Bys**
1. Sara Resiz, Tal-y-bont
2. Sara Reisz
**4 Tomato**
2. Sara Reisz
**1 Sypyn o Domatos**
1. Marc Richards, Tal-y-bont
3. David Jones
3. Marc Richards
**2 Faro sy'n llai na 12 modfedd o hyd**
2. David Jones
**2 Faro 12 modfedd o hyd a mwy**
1. David Jones
2. Helen Hicks
3. David Jones
**6 Tomato Ceirios**
1. Sara Reisz
2. Sara Reisz
**4 Ffa Ffrengig**
1. Elfed Jones
2. Elfed Jones
**4 Coden o Ffa**
1. David Jones
**3 Coesyn Riwbob**
1. Anthony Holt
**3 Corbwmpen**
1. Sara Reisz
3. Sara Reisz
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
2. Marc Richards
3. Sara Reisz

**LLEOL**
**Casgliad o 4 Perlysiau**
1. Helen Hicks
2. Sarah Lloyd Williams
3. Sara Reisz
**3 Corbwmpen**
1. Sara Reisz
2. Sara Reisz
**4 Taten**
1. Anthony Holt
3. Jo Chalmers
**3 Coesyn Riwbob**
1. Elfed Jones
2. Lisa Evans
3. Anthony Holt
**2 Ciwcymbr**
1. Kath Keirle, Tal-y-bont
2. Sara Reisz
3. Cathryn Lloyd-Williams, Bont-goch
**4 Ffa Dringo**
1. Anthony Holt
2. David Jones
3. Roger Morel, Bont-goch
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1. Helen Hicks
2. Claire Fowler, Tal-y-bont
3. Sarah Lloyd-Williams
**ARDDANGOSFA ORAU**
Marc Richards

**FFRWYTHAU**
**3 Afal Bwyta**
1. Lisa Tomos, Pentrebach
2. Marc Richards
3. Marc Richards
**3 Afal Coginio**
1. Anthony Holt
3. Marc Richards
**3 Peren Fwyta**
1. Marc Richards
2. Kath Keirle
**3 Peren Goginio**
1. David Jones
2. David Jones
**3 Eirinen**
1. Sara Reisz
2. Sarah Lloyd-Williams
3. Elfed Jones
**6 Eirinen Ddu**
1. Sara Reisz
2. Sara Reisz
**ARDDANGOSFA ORAU**
Anthony Holt
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Sara Reisz

**BLODAU**
**4 Dahlia Collarette neu betal sengl**
1. Nia Richards, Tal-y-bont
**4 Pysen Bêr**
1. Sarah Reisz
**Cactws mewn Pot**
2. Barry Thomas
**Suddlon mewn Pot**
1. Sara Reisz
3. Sara Reisz
**Planhigyn Dail y Tyˆ mewn Pot**
1. Sarah Reisz
**Planhigyn Tŷ yn ei Flodau mewn Pot**
1. Sara Reisz
2. Jini John, Tal-y-bont
3. Sara Reisz
**Begonia mewn Pot**
1. Sarah Reisz
**Ffiwsia yn ei flodau mewn Pot**
1. Sara Reisz
2. Sara Reisz
**Gardd Fach ar Blât - Plant o dan 14 mlwydd oed**
1. Cadi Lloyd Williams, Bont-goch
3. Erin Aubrey, Tal-y-bont
3. Jessie Jenkins, Tal-y-bont
**Casgliad o Flodau Gwyllt. Plant dan 14 mlwydd oed**
2. Cadi Wen Lloyd-Williams, Bont-goch
3. Ariana Lloyd-Williams, Bont-goch
3. Cai Lloyd-Williams, Bont-goch
**Tusw Ysgwydd Gorau**
3. Cathryn Lloyd-Williams, Bont-goch
**Basged Grog yn ei blodau**
1. Elfed Jones
**ARDDANGOSFA ORAU**
Sara Reisz
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN (LLEOL)**
Sara Reisz

**GOSOD BLODAU**
**Hir ac Isel**
2. Christine Gilbert, Tre'r Ddôl
**Ar frig y don, trefniant ar raddfa fach**
1. Christine Gilbert
**Rhosod Ymysg Drain – i ddechreuwyr**
1. Jane Bailey, Bont-goch
**Tusw o flodau wedi ei clymu mewn ffram wedi'i gwneud â llaw**
1. Christine Gilbert
**Gleision yr Haf**
1. Christine Gilbert
**Melys y Ddol**
1. Christine Gilbert
**Ffyn a Sfferau**
1. Christine Gilbert
2. Jane Bailey
**'Wele flodau'r haul' - trefniant o dan amodau**
1. Hannah Sams Jones, Tal-y-bont
3. Helen Jones, Tal-y-bont
3. Kerrie Farrar, Tal-y-bont
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Christine Gilbert
**ARDDANGOSFA ORAU**
Christine Gilbert

**COGINIO**
**Cacen Ffrwythau**
1. Jill South, Taliesin
**Cacen Lemwn**
1. Ellyw Siencyn, Tanrallt
2. Sara Jenkins, Borth
**Cacen Foron**
2. Jo Chalmers
**Sbwng Siocled**
3. Sara Jenkins
**Bara Brith – heb furum**
1. Seirian De'Rome, Eglwys Fach
2. Ellyw Siencyn
3. Ceri Jones, Tal-y-bont
**Torth Cartref – Tin Hirsgwar**
1. Elfed Jones
**4 Sgon**
1. Kath Keirle
2. Lisa Thomas
3. Jane Bailey
**6 Pice ar y Maen**
2. &3. Nia Richards
**Pedair eitem yn defnyddio afal**
1. Jane Bailey
**Fy Hoff Gacen gyda rysait**
3. Jane Bailey
**4 Fflapjacs**
2. Ceri Jones
**Cacen Ffrwythau (Cystadleuaeth i wrywod yn unig)**
1. Marc Richards
2. Marc Richards
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN I WRYWOD**
Marc Richards

**CYFFEITHIAU**
**Jar o Farmaled**
3. Janet Jones
**Jar o Jam Ffrwythau Meddal**
1. Jill South
2. Nia Richards
3. Janet Jones
**Jar o Jam Ffrwythau gyda cherrig**
3. Sarah Lloyd-Williams
**Jar o Jeli Ffrwythau**
2. Jo Chalmers
**Jar o Geuled Lemwn**
3. Janet Jones, Tal-y-bont
**Jar o Siytni Afal**
1. Nia Richards
2. Janet Jones
**Jar o Siytni Ffa Dringo**
1. Janet Jones
**Jar o Siytni arall**
1. Nia Richards
3. Nia Richards
**Jar o Gyffaith Anarferol**
3. Kathleen Keirle
**Potel o Gordial**
1. Kathleen Keirle
2. Jo Chalmers
**Potel o Wirod Ffrwythau**
1. &2. Lisa Evans
3. Ellyw Siencyn

**CYNNYRCH LLAETHDY**
**4 ŵy iâr – Brown**
2. Sarah Lloyd-Williams
3. Sianco John, Tal-y-bont
**4 ŵy – Arlliwiedig**
1. Jini John, Tal-y-bont
2. Osian, Gruffudd a Tomos Jones, Tal-y-bont
**4 ŵ Hwyaden**
1. Ffion Hicks, Llangynfelyn

**GWAITH LLAW**
**Unrhyw Eitem mewn Pwyth Croes**
1. Ffion Hicks
**Clustog**
3. Myfanwy James, Tal-y-bont
**Dilledyn wedi ei weu â Llaw**
2. Helen Ovens, Taliesin
**Unrhyw Eitem wedi ei Grosio**
2. Kerrie Farrar
**Gwahoddiad i briodas ac amlen**
2. &3. Jane Pugh, Tre'r Ddôl
**Bag - unrhyw gyfrwng**
1. Jane Pugh
2. Claire Fowler
3. Kerrie Farrar

**CREFFT**
**Eitem o grochenwaith**
1. & 2. Jill South
**Unrhyw Eitem yn denfyddio gwlan**
2. Helen Ovens
**Paentiad - unrhyw gyfrwng**
3. Nia Benham, Llangynfelyn

**FFOTOGRAFFIAETH**
**Cymru**
1. Dylan Morgan, Tal-y-bont
2. Jini John
3. Lleucu Wyn Evan Tal-y-bont
**Emosiynau**
1. Dylan Morgan
2. Catrin M S Davies, Tal-y-bont
**Y Nos**
1. Catrin M S Davies
2. Jini John
3. Jo Chalmers
**Bwyd**
1. Sianco John
2. Dylan Morgan
3. Catrin M S Davies
**Cyfyngedig i blant ysgolion cynradd – Awyr Agored**
2. Magw Ifan, Tal-y-bont
3. Elsi Iago
**Golygfeydd**
1. Catrin M S Davies
2. Jo Chalmers
3. Alun Elidyr, Tal-y-bont
**Portreadau**
1. & 3. Sianco John

**PLANT YSGOL GYNRADD TAL-Y-BONT**
**Dosbarth Meithrin: Anifeiliaid**
1. Seren Jenkins
2. Gwenno Doyle
3. Steffan Davies
**Dosbarth Derbyn: Byd Natur**
1. Bonnie Thomas
2. Lola Morgan
3. Brân Taylor
**Blwyddyn 1 a 2**
1. Elsi Iago
2. Mostyn Lloyd-Williams
3. Katri Salmi
**Blynyddoedd 3 a 4: Adeilad Enwog**
1. Mattias Woodling
2. Teal Harding-Bubb
3. Osian Saunders-Jones
3. Freya Taylor
**Blynyddoedd 5 a 6: 'Pop Art'**
1. Ben Harris
2. Minnie Evans
3. Martha Cosson
3. Ariana Lloyd-Williams

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 11



*Becca Fleming-Jenkins yn marchogaeth 'Bertie' a enillodd sawl gwobr*

**PLANT YSGOL GYNRADD AGORED**
**Dosbarth Meithrin: Paentiad o ardd flodau**
1. Alexander Roberts
3. Efan Aubrey, Tal-y-bont
**Dosbarth Derbyn: Paentiad o anifail sw**
1. Tomos Morgan, Tal-y-bont
2. Wil Evans, Tal-y-bont
3. Tomos Jones, Tal-y-bont
**Blwyddyn 1 a 2: Celf yn defnyddio bysedd**
3. Gruffudd Jones, Tal-y-bont
**Blynyddoedd 3 a 4: Yr Ardd**
1. Daniel Morgan, Tal-y-bont
2. Cadi Wen Lloyd-Williams, Bontgoch
3. Daniel Morgan
**Blynyddoedd 5 a 6: Paentiad o gêm bêl droed**
1. Edith Heron, Tre Taliesin
2. Tomos Breeze, Tal-y-bont
3. Swyn Jones, Tal-y-bont
**PLANT YSGOL UWCHRADD**
**4 browni siocled**
1. Efa Saunders-Jones, Ffwrnais
**Llawysgrifen**
1. Lleucu Wyn Evans, Tal-y-bont
**Eitem wedi ei wneud yn yr ysgol**
1. Lleucu Wyn Evans, Tal-y-bont
**ARDDANGOSFA ORAU**
Efa Saunders-Jones
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
Lleucu Wyn Evans
**CLWB FFERMWYR IFANC**
**4 Rocky Road**
1. Efa Saunders-Jones
**Eitem wedi uwch-gylcu**
1. Efa Saunders-Jones

**Cerdyn Dathlu**
2. Efa Saunders-Jones
**MARCIAU UCHAF YN YR ADRAN**
1. Efa Saunders-Jones

**CEFFYLAU**
**ADRAN Y 'COB CYMREIG'**
Beirniad: Mr Aled Llyr Thomas, Pen Parc, Cefn Coch, Y Trallwng
**COBIAU CYMREIG (ADRAN D)**
**5: Ebol Dwy flwydd oed, neu Eboles neu Geffyl dwy neu dair blwydd oed**
1. Teulu Evans, Glanaber, Talybont
**13: March, unrhyw oed**
1. Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin
**ADRAN MERLOD MYNYDD CYMREIG (ADRAN A)**
Beirniad: Miss Sara Oliver, Pen Parc, Cefn Coch, Y Trallwng
**17: Caseg Hesb neu Geffyl/Barren Mare or Gelding**
3. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Talybont
**21: Merlen Mynydd Gymreig Adran A yn cael ei dangos o dan gyfrwy**
1. Mari Heulwen Evans, Glanaber

**MERLOD CYMREIG COFRESTREDIG (ADRAN 'B')**
Beirniad: Miss Sara Oliver, Pen Parc, Cefn Coch, Y Trallwng
**26: Caseg Hesb neu Geffyl 4 blwydd oed neu'n hŷn**
2. Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin
**28: Merlen Gymreig Gofrestredig Adran B i'w dangos dan gyfrwy**
1. Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin

**ADRAN MWYAF TRWSIADUS**
Beirniad: Miss Cathrin Roberts, Stingwern, Berriew
**31: Mwyaf trwsiadus wedi plethu**
1. Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll, Talybont
**32: Mwyaf trwsiadus wedi plethu/heb blethu**
2. Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll
3. Helen Revington, Ffermdy Dolen, Eglwys Fach

**ADRAN HELFARCH**
Beirniad: Miss Cathrin Roberts, Stingwern, Berriew
**34: Caseg neu Geffyl Hela dros 158cm i'w dangos dan gyfrwy**
2. Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin
3. Helen Revington, Ffermdy Dolen, Eglwys Fach

**ADRAN HURFEIRCH, MARCHOGAETH A GWRAGEDD YN MARCHOGAETH**
Beirniad: Miss Cathrin Roberts, Stingwern, Berriew
**35: Hurfarch gorau, unrhyw uchder, i'w farchogaeth**
1. Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll, Talybont
**36: Ceffyl Marchogaeth gorau i'w farchogaeth**
1. Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll, Talybont
**CWPAN** – arddangosyn gorau yn yr adran Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll

**ADRAN CLYBIAU MARCHOGAETH A MERLOD**
Beirniad: Miss Cathrin Roberts, Stingwern, Berriew
**37: Caseg neu Geffyl 4 blwydd oed a throsodd gorau sy'n addas ar gyfer gweithgaredd clybiau marchogaeth a merlota i'w farchogaeth gan blentyn 16 mlwydd oed ac iau.**
1. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Talybont
**39: Cystadleuaeth Gwisg Ffansi**
1. Alaw Morgan, Alltgoch, Talybont

**CEFFYLAU LLIW, PALOMINO A BRITH**
Beirniad: Miss Iola Lloyd Hughes, Rhydsarn, Capel Seion
**40: 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau, unrhyw uchder. I'w arwain.**
1. Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin
**41: 1, 2 a 3 blwydd oed gorau. I'w arwain.**
2. Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll, Talybont
**42: 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau, unrhyw uchder. I'w farchogaeth.**
1. Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin
2. Helen Revington, Ffermdy Dolen, Eglwys Fach
3. Lowri James, Llanerch, Bontgoch
**CWPAN** – arddangosyn gorau yn yr adran Megan Williams, Yr Hen Ysgol

**CEFFYLAU FETERAN**
Beirniad: Miss Iola Lloyd Hughes, Rhydsarn, Capel Seion
**43: Caseg neu Geffyl 15 mlwydd oed neu hŷn – i'w arwain.**
1. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Talybont (Alfie)
**44: Caseg neu Geffyl 15 mlwydd oed neu hŷn – i'w farchogaeth.**
1. Helen Revington, Ffermdy Dolen, Eglwys Fach
2. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Talybont
Rhosglwm Pencampwr - Helen Revington, Ffermdy Dolen
Cil-wobr - Mari Heulwen Evans, Glanaber

**MERLOD MYNYDD A GWEUNDIR**
Beirniad: Miss Iola Lloyd Hughes, Rhydsarn, Capel Seion
**46: Bridiau Mynydd a Gweundir Bach Cymysg sy'n cael eu Marchogaeth. Marchogwr o unrhyw oed.**
1. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Talybont

**CEFFYLAU RHAN FRID CYMREIG**
Beirniad: Miss Sara Oliver, Pen Parc, Cefn Coch, Y Trallwng
**48: 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau, unrhyw uchder - i'w arwain**
1. Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin
**49: Yr Ebol, Eboles neu'r Ceffyl gorau, 3 blwydd oed neu iau – i'w arwain**
2. Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll, Talybont
**50: Y March, Y Gaseg neu'r Ceffyl gorau, 4 blwydd oed neu'n hŷn gorau – i'w farchogaeth**
2. Megan Williams, Yr Hen Ysgol

**CYSTADLEUAETH DANGOSYDD IFANC**
Beirniad: Mr Aled Llyr Thomas, Pen Parc, Cefn Coch, Y Trallwng
**51: Dangosydd Ifanc gorau o dan 12 oed yn yr adran Geffylau/Merlod.**
1. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Talybont

**ADRAN MERLOD MARCHOGAETH PLANT**
Beirniad: Miss Cathrin Roberts, Stingwern, Berriew
**54: Merlen, caseg neu geffyl nad yw'n fwy na 122cm i'w farchogaeth am y tro cyntaf ac sydd yn addas i'w farchogaeth gan blentyn a aned yn 2013 neu wedi hynny.**
1. Mari Heulwen Evans, Glanaber, Talybont
**Pencampwr:** Mari Heulwen Evans

**DOSBARTH ARBENNIG LLEOL – GWREGYS** i'r cystadleuydd lleol gorau i ennill gwobr 1af ar ddiwrnod y sioe (o fewn cwmpas o 5 milltir i Dalybont).
Enillydd: Megan Williams, Yr Hen Ysgol, Taliesin

**GWARTHEG**
**Da Duon Cymreig**
Beirniad: Mr Evan Williams, Caerynwch, Brithdir
**63: Tarw a aned rhwng 1.1.2021 a 31.12.2021**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau, Talybont
**65: Buwch gyflo neu buwch sydd yn llaetha a aned cyn 1.1.2020**
1. Teulu Tanrallt, Talybont
2. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau, Talybont
**69: Llo a aned yn 2023**
1. Teulu Tanrallt
3. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**70: Pâr o Wartheg**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
2. Teulu Tanrallt
**Rhosglwm y Pencampwr i'r Tarw Gorau**
Enillydd: Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**Rhosglwm y Pencampwr i'r Fenyw orau**
Enillydd: Teulu Tanrallt
**Arddangosyn gorau yn adran y Da Duon Cymreig**
Pencampwr: Teulu Tanrallt
Is-Bencampwr: Teulu Jenkins, Cerrigcaranau

**Buwch a Llo mewn Lloc**
Beirniad: Mr Evan Williams, Caerynwch, Brithdir
**71. Buwch Ddu Gymreig gyda'i llo pur neu groes (a aned yn 2023) wrth droed, i'w beirniadau mewn lloc.**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau

**Gwartheg Holstein y DU**
Beirniad: Mr Dafydd Jones, Pen Bryn Llan, Llanrheadr, Dinbych
**72. Heffer Holstein dan 12 mis oed ar ddiwrnod y Sioe.**
2. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau, Talybont
**74. Buwch gyflo Holstein sych**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau, Talybont
**75. Heffer Holstein sy'n llaetha**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**76. Buwch Holstein sy'n llaetha**
1. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**77. Pâr o wartheg**
2. Teulu Jenkins, Cerrigcaranau
**RHOSGLWM - arddangosyn gorau yn yr adran**
Pencampwr: Teulu Jenkins, Cerrigcaranau

**Tarian Pencampwr y Pencampwyr Gwartheg**
am yr Arddangosyn Gorau yn Adran y Gwartheg
Beirniad: Mr Ieuan Morgan, Rhos, Talybont
Pencampwr: Teulu Tanrallt
Is-Bencampwr: Teulu Jenkins, Cerrigcaranau

**DEFAID**
**Defaid Mynydd Cymreig (Adran Fynydd)**
Beirniad: Mr BRYN OWEN, Tai Pella, Gwytherin, Abergele
**85: Hwrdd, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
1. Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig, Talybont
3. Teulu Tanrallt, Talybont
**86: Hwrdd Blwydd**
1 a 2. Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig
3. Rhian Evans, Glanrafon, Talybont
**87: Oen Hwrdd**
1, 2, 3. Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig
**88: Dafad, 2 flwydd oed ac yn hŷn**
1. Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig
**89: Dafad flwydd**
2. Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig
3. Teulu Tanrallt, Talybont
**90: Oen benyw**
1, 2. Teulu Tanrallt
3. Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig
**91: Grŵp**
Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig
**92: Pâr o hyrddod. Blwydd oed neu'n hŷn**
Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig
**CWPAN**: arddangosyn gorau yn yr adran – Enoc a Dewi Jenkins
**RHOSGLWM**: hwrdd gorau – Enoc a Dewi Jenkins
**RHOSGLWM**: oen hwrdd gorau – Enoc a Dewi Jenkins
**RHOSGLWM**: grŵp gorau – Enoc a Dewi Jenkins
**RHOSGLWM**: pâr o hyrddod – Enoc a Dewi Jenkins

**Defaid Torwen**
Beirniad: Mr AERON EDWARDS, Ysgoldy, Lledrod
**113: Oen Hwrdd**
1. Gruffudd Jones, Awel y Gors, Talybont
**116: Oen Benyw**
1. Gruffudd Jones, Awel y Gors

**Defaid Balwen**
Beirniad: Mr AERON EDWARDS, Ysgoldy, Lledrod
**118: Hwrdd, unrhyw oed**
1. Teulu Pantcoch, Talybont
**119: Oen Hwrdd**
1. Teulu Pantcoch, Talybont
**120: Dafad/Ewe**
1. Teulu Pantcoch
**121: Dafad flwydd**
1. Teulu Pantcoch
**122: Oen Benyw**
1. Teulu Pantcoch
**123: Grŵp**
1. Teulu Pantcoch
**CWPAN**: arddangosyn gorau yn yr adran – Teulu Pantcoch

**Unrhyw Frid Mynydd Arall**
Beirniad: Mr JOHN GRIFFITHS, Pantmawr, Pisgah
**131: Hwrdd**
1. Teulu Alltgoch, Talybont

pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 12

3. Ffion Jones, Berthlwyd, Talybont
**132: Oen hwrdd**
2. Teulu Alltgoch
3. Teulu Tanllan, Taliesin
**133: Dafad**
1. Teulu Alltgoch
**134: Dafad flwydd**
2. Teulu Tanllan
3. Teulu Alltgoch
**135: Oen benyw**
2, 3. Teulu Alltgoch
**136: Grŵp**
1. Teulu Alltgoch
**CWPAN: arddangosyn gorau yn yr adran**
Cil-wobr: Teulu Alltgoch

**Defaid Suffolk**
Beirniad: Mr JOHN GRIFFITHS, Pantmawr, Pisgah
**146: Dafad**
1. Teulu Alltgoch, Talybont
**148: Oen benyw**
2. Teulu Alltgoch
**CWPAN: arddangosyn gorau yn yr adran**
Cil-wobr: Teulu Alltgoch

**Defaid Charollais**
Beirniad: Mr DYLAN JONES, Danygraig, Llandrindod
**150: Hwrdd**
1. Osian Gwern Jones, Awel y Gors, Talybont
**151: Oen Hwrdd**
2. Osian Gwern Jones
**152: Dafad**
2. Osian Gwern Jones
**154: Oen benyw**
3. Osian Gwern Jones

**Defaid Texel**
Beirniad/Judge: Mr DYLAN JONES, Danygraig, Llandrindod
**156: Hwrdd**
1, 2. Ffion Jones, Berthlwyd, Talybont

**Defaid Dorset (Moel a Chorniog**
Beirniad: Mr DYLAN JONES, Danygraig, Llandrindod
**162: Hwrdd**
1. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall, Taliesin
**163: Oen hwrdd**
1, 2. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall
**164: Dafad Oedrannus**
2. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall
**165: Dafad Flwydd**
1, 2. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall
**166: Oen Benyw**
1, 3. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall
**167: Oen Benyw (heb ei thocio)**
2, 3. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall
**168: Grŵp**
1. Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall
**RHOSGLWM: arddangosyn gorau yn yr adran**
**Pencampwr:** Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall
**Cil-wobr:** Griffiths & Davies, Dolclettwr Hall

**Defaid Zwartbles**
Beirniad/Judge: Mr DYLAN JONES, Danygraig, Llandrindod
**170: Oen Hwrdd**
3. Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin
**173: Ewe Lamb**
2. Susan Rowlands, Erglodd

**Bridiau Prin a Lleiafrif**
Beirniad: Mr AERON EDWARDS, Ysgoldy, Lledrod
**188: Oen hwrdd**
1. Teulu Tanllan, Taliesin
**189: Dafad**
1. Teulu Tanllan
**190: Dafad Flwyd**
1, 3. Teulu Tanllan
**191: Oen Benyw**
2. Teulu Tanllan
**192: Grŵp**
1. Teulu Tanllan
**CWPAN:** arddangosyn gorau yn yr adran - Teulu Tanllan

**Ŵyn Tewion**
Beirniad: Mr IDWAL GLANT GRIFFITHS, Penrhyncoch
**193: Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso llai na 32kg yn fyw)**
1. Teulu Tanllan, Taliesin
2. Teulu Alltgoch, Talybont
**194: Pâr o ŵyn i'r cigydd, heb eu tocio (yn pwyso 32kg neu fwy yn fyw)**
1. Teulu Tanllan
2, 3. Teulu Alltgoch
**195: Pâr o ŵyn i'r cigydd, o unrhyw Frîd Mynydd Pur**
1. Teulu Tanrallt, Talybont
2. Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig, Talybont
3. Teulu Tynant, Tal-y-bont
**196: Pâr o ŵyn i'r cigydd, o unrhyw Frîd Mynydd Pur Arall**
1, 2. Teulu Alltgoch, Talybont
3. Teulu Tynant, Tal-y-bont
**Rhosglwm:** pâr o ŵyn gorau yn yr adran
Enillydd: Teulu Alltgoch, Talybont
**Rhosglwm:** pâr o ŵyn mynydd gorau yn yr adran
Enillydd: Teulu Alltgoch, Talybont

**Tywysydd Ifanc y Defaid**
Beirniad: Mr DAVID MORGAN, Pentrebach, Talybont
**197: Tywysydd gorau o dan 12 oed, unrhyw ddafad**
3. Elsi Iago, Pantcoch, Talybont
**199: Tywysydd gorau o dan 12 oed, unrhyw oen swci**
1. Ieuan Evans, Glanaber, Talybont
2. Elsi Iago, Pantcoch
**Troffi**: enillydd Dosbarth 199 - Ieuan Evans

SIOE GŴN
Beirniad: Miss HEIDI THOMAS, Llanidloes

**2: Unrhyw fath o gi hela**
3. Ewan Wells, 2 Birkenhead Street, Talybont
**3: Unrhyw fath o gi neu ast heblaw am gi hela**
2. Claire Buchan, Tŷ Leri, Talybont
3. Lisa Evans, Y Dderwen, Talybont
**9. Dangosydd gorau dros 12 mlwydd oed**
3. Elaine Rowlands, 6 Maesyfelin, Talybont
**10. Mwngrel neu frîd croes gorau**
1. Edward Dumbrill, Sisial y Nant, Talybont
**11. Y ci â'r gynffon sy'n siglo fwyaf**
2. Elaine Rowlands, 6 Maesyfelin



*Christine Gilbert gyda'r gwpan am yr arddangosfa orau*



*Digon i'w drafod ar faes y Sioe*

# Merched y Wawr, Tal-y-bont


Ar yr 16ed o Fehefin, cyfarfu'r aelodau yn Nhafarn y Maes, Capel Bangor i fwynhau pryd o fwyd a sgwrs cyn ymgynnull yn y Llyfrgell Genedlaethol. Pwrpas yr ymweliad oedd gweld yr Archif Sgrin a Sain, ac yr oedd Einion Gruffudd yno i'n tywys o gwmpas yr arddangosfa. Trwy gyfrwng y ffilmiau, cawsom ein hatgoffa o nifer o achysuron cenedlaethol pwysig, a gweld lluniau llawer o'n harwyr, y cyfan ar gof a chadw i'r dyfodol.

Roedd Einion wedi paratoi arddangosfa arbennig i ni o ddigwyddiadau yn ymwneud ag ardal Talybont. Yr uchafbwynt oedd ymweliad Hywel Gwynfryn â'r pentre. Bu'n ymgomio a nifer o gymeriadau lleol -- a ymddangosai'n syfrdanol o ifanc! Ymwelodd Hywel hefyd a'r garej a siop y pentre a gwasg Y Lolfa. Diolchodd Medi i Einion -- a oedd wrth gwrs yn un o blant y pentre -- a gwahoddodd yntau ni'n frwd i'r Llyfrgell pryd y mynnem i bori ymhellach yn ein gorffennol.

*EG*







pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 13

# Cletwr

Wel, mae'r haf wedi dod i ben yn swyddogol, ond "Pa haf?" rydych chi'n gofyn? A gyda diwedd yr haf mae Cletwr yn tawelu fymryn. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn dra phrysur, fel arfer, a rhaid diolch i'n holl staff a gwirfoddolwyr am eu gwaith caled a di-dor, ac am fod yn siriol a chyfeillgar wrth bawb.

Bu nifer o newidiadau ers mis Mehefin: aelodau wedi mynd, gan gynnwys Rachel, sydd wedi bod yn trefnu digwyddiadau i'r gymuned ers nifer o flynyddoedd. Mae Lauren, ein cogydd, bellach yn gweithio yn CAT, a llu o bobl ifanc, gan gynnwys Molly, Noah, Joe, Georgia a Rubes, yn mynd nôl i'r Brifysgol, ar wahân i Georgia sydd wedi penderfynu fod yn blismones! Cadwch lygad barcud ar agor a pheidiwch â thorri'r gyfraith os bydd hi o gwmpas. Mae wynebau newydd i'w gweld hefyd. Croeso mawr i Emma o Eglwysfach sydd wedi cymryd drosodd yn y gegin. Mae llawer o syniadau cyffrous ganddi am y caffi, ond peidiwch â phoeni, bydd y safonau mor uchel ag erioed. Un o'r newidiadau yw cynnig dewis ehangach o gacennau cartref blasus ac iachus. Croeso hefyd i amryw o wirfoddolwyr a staff newydd, yn y siop a'r caffi, ac - yn arbennig - y rhai sy'n pobi cacennau!

Yn anffodus, rydym wedi cael ein gorfodi i godi rhai prisiau yn y siop a'r caffi, am resymau digon amlwg i bawb, ond gallwch fod yn sicr bydd Cletwr yn dal i gynnig gwasanaeth da gyda phrisiau rhesymol. Os oes gennych unrhyw awgrym am gynhyrchion ychwanegol y byddech chi'n hoffi eu gweld yn y siop, rhowch wybod i Aaron neu Chloe, yn bersonol neu drwy e-bost.

Bu stondin Cletwr yn sioe Tal-y-bont eleni. Trueni am y tywydd a'r mwd, ond diolch i'r trefnwyr am eu gwaith ymroddgar, ac yn arbennig i'r boi dynnodd car Chloe allan gyda'i dractor! Cawn edrych ymlaen nawr at amser tawelach am ychydig fisoedd, ond mae'r archebion ar gyfer y stoc Nadolig wedi mynd i mewn eisoes. Oherwydd ymadawiad Rachel, ni fydd cynifer o ddigwyddiadau fel yr oedd, ond mae croeso mawr i unrhyw un i drefnu rhywbeth yn Cletwr ar gyfer preswylwyr ein cymuned. Ac fe fydd croeso cynnes i unrhyw un arall sydd am weithio yn Cletwr. Drwy wirfoddoli, cewch fynd allan o'r tŷ, cwrdd â phobl, dysgu sgiliau newydd, helpu i adeiladu ein cymuned ac wrth gwrs, mae'n llawer o hwyl!

Edrychwch ar ein tudalen Facebook yn rheolaidd am fanylion digwyddiadau a newyddion. Fe welwn ni chi (a ffrind?) yn Cletwr yn y dyfodol agos.

*Nigel Callaghan*



# Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont

Roedd arolygon y tywydd am ddydd Mercher, 2 Awst yn ofnadwy – gwynt a glaw drwy'r dydd. Fedrai yr hyn drodd allan ddim wedi bod yn wahanol ac fe gafwyd diwrnod ardderchog o haul cynnes i gynnal ein treialon cŵn defaid. Do cafwyd cawod tua hanner awr wedi chwech ac un arall ryw awr yn ddiweddarach ond wnaeth hyn ddim amharu ar y diwrnod.

Cynhaliwyd y treialon fel arfer yn Llety Ifan Hen trwy garedigrwydd y teulu. Dechreuodd y treialon yn fuan wedi wyth o'r gloch y bore ac fe ddaeth y rhediad olaf i ben am hanner awr wedi wyth yr hwyr. Braf oedd gweld nifer o wynebau newydd ymysg y cystadleuwyr ac ambell un o ogledd Cymru. Roedd rhai cystadleuwyr hefyd o'r cyfandir ond llai nac a welwyd yn y gorffennol.

Cafwyd rhai rhediadau da iawn ond i nifer daeth yr amser penodedig i ben cyn iddynt fedru rhoi y defaid yn y lloc, yn enwedig yn y dull de Cymru lle roedd y defaid yn styfnig i fynd drwy y "maltese cross".

Y beirniad eleni oedd Emyr Lloyd o Lanrhystyd ac wedi diwrnod hir yn gwylio a thafoli dyma oedd ei benderfyniadau. Yn ennill y dull cenedlaethol oedd Siôn Thomas o Ddolgellau gyda Sian a Dewi Jenkins Tynygraig yn ail gyda Meg. Siôn hefyd enillodd am y ci nofis yn y dull cenedlaethol. Yn y dull de Cymru Dewi enillodd gyda Holly a dyma'r cyfuniad enillodd am y ci nofis a hefyd am y dosbarth cyfyngedig i Geredigion.

Ar y nos Fawrth, wedi gosod y cae, rhoddwyd cyfle i gystadleuwyr lleol. Dewi enillodd y dull cenedlaethol gyda Jim a Dafydd Tanrallt enillodd y dull de Cymru gyda Don.

*Ieuan Morgan*






pp Medi 23.qxp_Layout 1 05/09/2023 2:42 pm Page 14

# Yn **Natur**iol

## Pili Pala Prin Pentrebach

Braf yw cael cyflwyno tamaid bach o newyddion da am fyd natur, lle mae'r darlun at ei gilydd yn dangos dirywiad cyflym. Prin iawn yw'r Brithribin W Wen yn ngorllewin Cymru a Phrydain ond gwelais i hi yma dros yr haf eleni. Mae'r enw yn cyfeirio at y patrwm o dan ei hadain sy'n edrych fel siâp W.



*Y Brithribin W Wen*

Dyma löyn byw sy'n bwydo ar ddail coed llwyfen (elm) ac felly mae niferoedd wedi lleihau yn arw ers i glefyd 'Dutch Elm' gydio yn yr 1970au. Mae rhai coed llwyfen wedi ail dyfu ac mae rhes ohonynt i'w gweld uwchben tŷ uchaf Pentrebach.

Anodd ydy cael cip o'r Brithribin gan ei fod yn fach ac yn hedfan yn uchel ymhlith dail y coed rhwng Mehefin a ganol Awst. Ym mis Gorffennaf mae gwell siawns i'w gweld gan eu bod yn hoffi bwydo ar flodau mieri a choed prifet. Dyma sut cefais i gipolwg ohoni: chwilio am lecyn heulog a chysgodol efo mieri yn ei blodau yn agos at goed llwyfen. Roeddwn wedi cyffroi yn llwyr!! Cofnod newydd i'r cylch!

Peth da ydy gweld rhai ymylon caeau sydd efo mieri, er mor cyffredin, mae'n cynnig gymaint o ran bwyd a chysgod i lawer o rywogaethau gwahanol. Ac wrth gwrs mae'r ffrwythau yn flasus mewn crymbl a jam.

Haf nesaf chwiliwch am ragor o goed llwyfen yn agos at flodau mieri yna arhoswch a gwyliwch. Mae'n syndod beth mae'n bosib i chi ei weld!

*Lisa Tomos*

# **Natur** y Fro




*Linda, Elfyn a Rosi ar y stondin*

Elfen newydd yn Sioe Tal-y-bont eleni oedd stondin o'r enw Natur y Fro, dan ofal Linda Denton ac eraill.

Cynhaliwyd nifer o sgyrsiau difyr gan arbenigwyr lleol ynglŷn â prosiectau plannu coed yn lleol, rheoli llifogydd, adar, tir canol, ansawdd dŵr, coed lleol nodedig a nythod. Ymhlith y cyfranwyr oedd Linda Denton, Ben Porter, Elfyn Pugh, Sian Stacey, Mick Fothergill a Lisa Tomos.



*Lisa Tomos yn dangos y nythod lleol amrywiol*

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

STORFA HUNAN FYNEDIAD
UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI
MONITRO DIOGELWCH
24 AWR
Storfa Cartref & Busnes
Bocses a Bubblewrap
Symud gyda Wales Removals
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
MID WALES STORAGE
www.midwalesstorage.co.uk

# Ffarwelio â Gwilym ac Alex



Daeth aelodau a ffrindiau ynghyd i Fethel, Tal-y-bont ar Orffennaf 9 ac yna i Eglwys Seion, Aberystwyth ar Orffennaf 23 ar gyfer oedfaon olaf y Parchedig Gwilym Tudur. Wedi cyfnod yng ngogledd Ceredigion, mae Gwilym a'i briod Alex ar fin dechrau pennod newydd yng Nghaergrawnt - Gwilym i barhau gyda'i astudiaethau ac Alex i ddysgu mathemateg.

Wedi'r oedfaon, talwyd teyrnged am waith diflino Gwilym ac Alex dros y tair blynedd ddiwethaf. Cyflwynwyd rhoddion iddynt fel arwydd o werthfawrogiad swyddogion ac aelodau'r ddwy eglwys a chafwyd cyfle i hel atgofion dros baned. Trosglwyddwyd rhodd i Gwilym ar ran aelodau Bethel gan Gwilym Jenkins, sef geiriau o hunangofiant Azariah Shadrach a darlun o Dal-y-bont wedi eu fframio. Yna cyflwynwyd blodau i Alex gan Sianco ar ran y plant.

Dymuna aelodau Bethel a Seion ddiolch i'r ddau am eu hymroddiad a dymunir pob bendith arnynt i'r dyfodol.

Bydd patrwm oedfaon Bethel yn newid o ganlyniad i ymadawiad Gwilym, gyda'r gwasanaeth ar yr ail ddydd Sul o bob mis yn nwylo aelodau unigol ac yna'r pedwerydd Sul o bob mis yng ngofal Geraint Evans. Bydd croeso i aelodau Bethel ymuno â'n cyfeillion yn Seion ar gyfer y Suliau eraill. Yn y cyfamser mae swyddogion Seion a Bethel yn cyfarfod i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol.

*DPD*


APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

# Y Gair Olaf



Rwy'n gweithio yng Ngwarchodfa Natur Ynyslas a phob gwanwyn rydym yn rhoi ffensys ac arwyddion o gwmpas trwyn y gogledd, lle mae cwtiaid torchog – adar prin sydd ar y rhestr goch - wedi bridio'n llwyddiannus ers rhyw saith mlynedd. Mae eu niferoedd yn isel ofnadwy ar draws y DU – dim ond tua 14 cyw y gwelodd ein staff ni y tymor hwn ond rhif sydd wedi dyblu dros y dair blynedd diwethaf. Mae'n amlwg bod ymdrechion y staff yn cael effaith positif, ond oherwydd mae'r adar bach hardd yma'n nythu ar y creigiau agored, mae nhw'n hollol agored i niwed.

Ddiwedd mis Mehefin, fe wnaeth grŵp o ddynion ifanc dorri trwy'r ffens a oedd yn amddiffyn yr ardal bridio, a champio mas trwy'r nos yng nghanol ardal lle roedd o leiaf pedwar nyth wedi'u sefydlu. Gadawsant yno lwyth o sbwriel ym mhobman, gan gynnwys poteli gwydr wedi'u torri, plastig wedi'i llosgi, a phacedi bwyd gwag. Y diwrnod canlynol roedd y tân yn dal i losgi, yn llawn hoelion, gwastraff barbeciw a mwy o sbwriel. Roedd y sefyllfa yn hollol dorcalonnus i ni a fu'n gweithio am ddeufis i roi'r cyfle gorau i'r adar a'u cywion. Roedd ein holl ymdrechion wedi'u chwalu mewn un noson. Yn ffodus i ni, trwy dystiolaeth llygad-dyst ac ymdrechion yr heddlu, mae'r ymchwiliad yn parhau. Hoffwn i weld byd lle mae pawb yn parchu natur gwyllt, yn dysgu ein plant i edrych ar ôl yr amgylchedd a phobl sydd ddim efo llais cryf eu hunain. Dowch i ni ddangos y ffordd yn ein cornel fach ni.

*Hannah Crute*

# Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Papur Pawb

Daeth criw da at ei gilydd i Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar y 10 Gorffennaf yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Diolchwyd i'r Golygydd Cyffredinol, golygyddion y mis, y dylunwyr, y gohebyddion, y dosbarthwyr, hysbysebwyr a'r cyfranwyr eraill am sicrhau bod deg rhifyn wedi ymddangos yn ystod y flwyddyn a hynny mewn lliw llawn am y tro cyntaf eleni. Dechreuwyd trafod syniadau ar sut y bydd y Gymdeithas yn mynd ati i ddathlu ei phen blwydd yn 50 oed yn 2024 a syniadau ar gyfer rhifyn 500 a fydd yn ymddangos blwyddyn nesaf. Edrychwn ymlaen at nodi'r garreg filltir bwysig yma a bydd rhagor o wybodaeth ym Mhapur Pawb yn fuan.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2023-24:

- Cadeirydd: Catrin M S Davies
- Is-gadeirydd: Lisa Tomos
- Ysgrifennydd: Rhian Evans
- Trysorydd: Rebecca Williams
- Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins

Diolchwyd i Trish Huws sy'n ymddeol fel Swyddog Hysbysebion am ei gwaith arbennig. Rydym yn chwilio am olynydd ar hyn o bryd, felly cofiwch gysylltu gyda'r Golygydd Cyffredinol os oes gennych ddiddordeb yn y swydd neu mewn cynorthwyo fel arall gydag unrhyw agwedd o waith y papur. Mae llwyddiant y papur yn ddibynnol ar gyfraniad tua 40 o wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r papur a thalwyd teyrnged i Beryl Evans, a fu farw ddiwedd 2022, ac a oedd wedi bod yn un o olygyddion y papur ers nifer lawer o flynyddoedd.

# Chwaraeon a Hamdden



Llongyfarchiadau i Ioan Joseph a Tom Benjamin ar gael eu dewis ar y cyd yn chwaraewyr ifainc gorau Clwb Pêl-droed Tal-y-bont. Ymlaen yn awr at y tymor newydd fechgyn!

## Golffwragedd lleol lwyddiannus

Mae 'na dalent arbennig ymhlith golffwragedd ardal *Papur Pawb*. Amlygodd hynny yng nghystadlaethau Diwrnod y Capten ar gwrs golff Borth ac Ynyslas ar 13 Awst.

Enillodd Sue Wilson, Ffwrnais, y brif wobr trwy guro Karen Evans, Tal-y-bont, o drwch blewyn, gan hefyd ennill y wobr am fod yr agosaf i'r pin. Serch hynny, roedd Karen yn gyntaf yn Adran Un o'r gystadleuaeth gydag Angharad Basnett, Bont-goch, yn ail. Enillodd Jane Raw-Rees, Tal-y-bont gynt, y wobr ar gyfer y cyn-gapteniaid.



*Sue Wilson*

Ym mis Gorffennaf roedd Karen wedi ennill Cwpan Clarke a hynny mewn tywydd garw.

Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiannau.






*Holly a Wayne yn casglu'r hwyaid o'r afon gyda chymorth Mererid*

## Hwyaid yn Codi Arian

Er na chynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn ystod mis Awst, roedd y Cynghorwyr yn bell o fod yn segur dros yr haf.

Mae'r Cae Bach yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 eleni ac yn dechrau dangos ei oedran. Felly, mae'r Cyngor, gyda help Pwyllgor y Cae Chwarae – sy'n cynnwys nifer o'r Cynghorwyr, yn ogystal ag aelodau cyfetholedig o blith trigolion Tal-y-bont – wrthi'n gwneud trefniadau i'w adnewyddu. Bydd sicrhau ei fod yn addas ac yn ddiogel i blant yr ardal yn dasg gostus, a dros y misoedd nesaf bydd y Cyngor yn cynnal nifer o ddigwyddiadau i godi arian.

Dechreuodd yr ymgyrch gyda ras hwyaid i lawr Afon Leri ar ddiwrnod Sioe Tal-y-bont. Cafodd bron i 500 o hwyaid bach melyn eu rhyddhau i'r dŵr yng ngwaelod cae'r Sioe, ac roedd yr holl law a gafwyd yn ystod mis Awst wedi sicrhau bod llif yr afon yn ddigon cryf i'w cludo'n gyflym at y llinell derfyn wrth y bont, lle roedd yna dorf o bobl yn cymeradwyo wrth iddynt ddod i'r golwg.

Diolch i Gymuned Llechryd am roi benthyg yr hwyaid i ni ac i Catrin M S Davies am fynd i'w hôl a'u dychwelyd, i Nia Richards am osod y bynting, i Jake Lewis a Marc Richards am ddarparu'r rhwydi, ac i'r cwmnïau lleol a gyfrannodd y gwobrau. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r holl wirfoddolwyr, sef Holly a Wayne Aubrey, Jake Lewis, Matthew Davies, Jamie Davies, Dominic Jenkins a Marc Richards, a aeth i mewn i'r dŵr i hebrwng yr hwyaid i lawr yr afon, rhyddhau'r rhai a aeth yn sownd ar y ffordd, a'u casglu ar ddiwedd eu taith – rydych chi'n sêr bob un ohonoch. Yn olaf, diolch i Mick a Jenny Fothergill am adael i'r byd a'i frawd gerdded trwy eu gardd at y dŵr.

Y canlyniad:
1 af – Phil Rea (Eurocell), £50;
2 il – Elen Ebenezer, taleb gwerth £25 gan Summit Cycles;
3 ydd – Ioan Withicombe, taleb i ddau blentyn gan Moody Cow;
4ydd – Andy Lloyd (Anthony Motors), rhodd gan siop Polly.

Oherwydd haelioni pawb a brynodd hwyaden (neu ddwy), llwyddwyd i godi £1,052, sy'n ddechrau gwych i'r ymgyrch ac yn profi bod pobol yr ardal yn barod iawn i fynd I'w pocedi ar gyfer achos da. Cynhelir noson bingo am 7:30pm ar 29 Medi 2023 yn y Neuadd Goffa. Cadwch olwg am y manylion a dewch yn llu!

*Lynwen Rees Jones*

pp medi 23 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 05/09/2023 11:57 am Page 1

# Sioe 2023

ATODIAD LLIW PAPUR PAWB MEDI 2023



*Lleucu Wyn Evans: marciau uchaf yn adran yr Ysgol Uwchradd*



*Arglwyddes Riwbi a'i llo wedi ennill prif bencampwriaeth adran y gwartheg i deulu Tanrallt*



*Y beirniad Cathrin Roberts yn cyflwyno gwobr i Mari Heulwen Evans*



*Gruffudd Jones gyda'i oen buddugol*



*Cadi Wen â'i gardd fach ar blât*

pp medi 23 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 05/09/2023 11:57 am Page 2



*Rowland Davies yn derbyn y wobr gyntaf gan y beirniad Dylan Jones*





*Elsi Iago a Tomos Ceulan, buddugol yn adran yr Ysgol Gynradd*



*Ffion Jones, Berthlwyd, gyda'i hwrdd Texel buddugol*




*Nia Benham gyda'i gwaith celf*



*Marc Richards, llwyddiannus yn yr Adran Goginio*

pp medi 23 - lluniau lliw.qxp_Layout 1 05/09/2023 11:57 am Page 3




*Sarah Lloyd Williams, gyda'i merch Elen, a'u casgliad o berlysiau*




*Sara Reisz, buddugol mewn sawl cystadleuaeth yn yr Adran Flodau*




*Efa Saunders-Jones, a fu'n llwyddiannus yn yr Adran Goginio*




*Y beirniad Dafydd Jones yn gwobrwyo buwch Holstein Cerrigcaranau dan ofal Rhys Richards*



*Alaw Morgan buddugol yn y gystadleuaeth gwisg ffansi*




*Swyn Jones gyda'i 'Pop Art'*




*Ellyw Siencyn, cyntaf am ei chacen lemwn*



*Elaine Rowlands gyda 'Rolo'*



*Magw'n cyflwyno tusw o flodau i'r Llywyddion, Jill a Glyn Saunders-Jones*

Ffotograffau gan Gwen Billingham, Kayleigh Hughes, Ellyw Siencyn a Fal a Gwyn Jenkins.

Noddwyd yr atodiad lliw hwn gan **Y Lolfa 01970 832304**